## Cyflwyniad

Bydd y rhaglen gyllido hon yn annog nifer o grwpiau cymunedol a / neu Awdurdodau Rheoli Risg i gymryd camau i leihau'r perygl o lifogydd dŵr wyneb mewn ffordd gynaliadwy. Disgwylir y caiff hyn ei gyflawni drwy gyfraniadau i gynlluniau a fydd hefyd yn sicrhau budd i Dŵr Cymru. Bydd lefel ein cyfraniad i gynllun yn seiliedig ar raddfa'r budd a ragwelir. Er hynny, pan fydd y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer y rhaglen wedi ei gwario, bydd y gronfa'n cau tan y flwyddyn ariannol ganlynol.

Er y bydd y mesurau arfaethedig yn cael eu targedu tuag at lifogydd dŵr wyneb, byddwn yn ystyried prosiectau sydd o fudd i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus neu Dŵr Cymru yn y ffyrdd canlynol:

- Llai o berygl llifogydd i gymunedau sy'n agored i niwed;
- Gostyngiad mewn llif afon brig (hyd at 25%) mewn nifer fach o ddalgylchoedd;
- Llai o ddŵr wyneb yn mynd i'n rhwydweithiau mewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt;
- Digwyddiadau llifogydd yn cael llai o effaith ar ansawdd y dŵr;
- Gwell enw da.

## Egwyddorion

Mae'r rhaglen gyllido (hyd at 31 Mawrth 2020) yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Annog gweithio mewn partneriaeth gyda’r nod o gyflawni:
  - Rheoli Llifogydd Naturiol;
  - Systemau Draenio Cynaliadwy;
- Dim ond pan fo'r buddion i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus / Dŵr Cymru wedi’u meintioli y caiff cyllid ei ddyrannu;
- Cefnogi ymchwiliadau sy'n asesu'r risg a'r manteision, naill ai drwy gyfrannu cyllid, data, neu'r ddau;
- Cefnogi ceisiadau grant ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn rhan o gynllun strategol i liniaru llifogydd;
- Cyflawni arbedion posibl ar draws / rhwng Awdurdodau Rheoli Risg;
- Gwella'r cysondeb rhwng ein proses fewnol o wneud penderfyniadau a dulliau blaenoriaethu / sgorio Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol;
- Cyfochri â dull mewnol Dŵr Cymru o flaenoriaethu risgiau / prosiectau;
- Asesu ceisiadau yn deg ac yn gyson.

## Proses

Mae'r broses ar gyfer ymgeisio, asesu a chymeradwyo fel a ganlyn:

- Ffurflen Datganiad o Ddiddordeb – dylai’r ymgeisydd lenwi ffurflenni ar wahân (dim ond pan fo angen cyllid) ar bob un o'r camau prosiect canlynol:
  - Amlinelliad o’r Achos Busnes;
  - Dyluniad Manwl;
  - Adeiladu
- Yn ystod y cam perthnasol, cyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb sydd wedi ei llenwi drwy e-bost i gyfeiriad awdurdod rheoli risg Dŵr Cymru (riskmanagementauthority@dwrcymru.com);

- Y Meini Prawf ar gyfer Asesu Ceisiadau – tîm Asedau Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru sy'n asesu ac yn argymell ceisiadau. Bydd hyn yn ystyried materion yn y dalgylch y gŵyr amdanynt yn ogystal ag unrhyw ddeunydd ategol a ddarperir gan yr ymgeisydd;
- Cymeradwyaeth gan Grŵp Polisi Draenio Dŵr Cymru – adolygiad o'r cais gan uwch reolwyr, sy'n cyfarfod bob 2 fis;
- Cadarnhad – caiff cadarnhad ei anfon at yr ymgeisydd i roi gwybod iddo am ganlyniad ei gais, manylion am gynnig Dŵr Cymru i gyfrannu (pan gaiff ei gymeradwyo) ac unrhyw amodau a gymhwysir.

Pan fo angen cymorth Dŵr Cymru ar ffurf darparu data, presenoldeb mewn cyfarfodydd ac yn y blaen, nid oes gofyniad i lenwi ffurflen gais. Bydd cais ar ffurf e-bost i gyfeiriad awdurdod rheoli risg Dŵr Cymru (riskmanagementauthority@dwrcymru.com) yn ddigonol yn yr achosion hyn. Yna, byddwn yn asesu'r cais ac yn ymateb iddo'n briodol yn unol â'n penderfyniad.

## Asesiad

Bydd y broses o asesu cais a'r argymhelliad a wnaed i'r Grŵp Polisi Draenio yn seiliedig ar werthusiad o'r canlynol:

- Effaith ddisgwyliedig cynllun ar Gwsmeriaid, Cydymffurfiaeth, y Gost;
- I ba raddau y mae'r cynnig yn gydnaws â'n hegwyddorion polisi allweddol a'n meysydd targed ar gyfer sicrhau budd;
- Asesiad o'r gymhareb cost a budd o safbwynt Dŵr Cymru.